Cofnodion Cyngor dros Zoom nos Iau Mai 27 2021 am 7pm
Presennol: M.Chapman, L.Roberts, E.R.Noble, Marion L Hughes, C.Brewer, T.W.Jones.
Ymddiheuriad: M.Skerrett
Cofnodion: Cadarnhawyd cofnodion 1.4.21, cynnig C.Brewer, cefnogi L.Roberts.

Heddlu. Ar hyn o bryd mae digwyddiadau yn golygu fod yr Heddlu yn galw yn y pentref yn eithaf cyson, rhoes Liz Roberts fanylion y Rhingyll Peter Evans a'r PCSO Peter Jones i'r Clerc.

Yr A470. Gwaith helaeth i gymryd lle ar yr A470 rhwng Betws y Coed a'r pentref yn yr wythnosau nesaf.

Cyngor Sir. Mae swyddogion yn galw yn yr ardal yn gyson.

Llwybrau. Cytunwyd i ail sefydlu yr is-bwyllgor ar gyfer cadw llygad ar gyflwr llwybrau'r ardal.

Yr Orsaf. Dim i'w adrodd.

Pontydd yn yr Ardal. Cadarnhaodd E.Noble bod swyddogion wedi bod yn archwilio cyflwr Pont Sarn Ddu yn ddiweddar, Clerc i ofyn am adroddiad.

Cydnabyddiaeth Aelodau. Trafod yn y cyfarfod nesaf.

Cynlluniau.
Llys y Gwynt: Dim i'w adrodd.
9 Castle Terrace: Dim i'w adrodd.

Llifogydd. Cytunodd Liz Roberts i geisio cael adroddiad erbyn y cyfarfod nesaf.

Scottish Power. Y cwmni wedi cadarnhau wrth Liz Roberts eu bod yn trefnu i ddod i gwblhau'r gwaith hyd Stryd y Bont a'r Eglwys ddechrau'r Haf.

NRW. Trafodaethau manwl yn parhau gyda sawl cyfarfod wedi cymryd lle, mae pethau i weld yn symud ymlaen yn foddhaol.

Terfyn gyrru. Dim ymateb i'r llythyr anfonwyd at W.Roberts CBSC i gadarnhau yr hoffai'r Aelodau weld terfyn 20mya ym mhob rhan o'r pentref.

Toiledau. Roedd Zac Tatam yn ddiolchgar o ddeall ei fod wedi cael y swydd glanhau ac yn edrych ymlaen i gydweithio â'r Cyngor. Liz Roberts wedi trafod y sefyllfa gyda cwblhau'r gwaith yn fanwl gyda S.Teale ac wedi cael cadarnhad ganddo fod llawer o'r materion oedd angen sylw yn cael sylw erbyn diwedd yr wythnos hon. Gallant fod ar agor erbyn y penwythnos.
Liz i'w holi am y posibilrwydd o roi giat newydd yng nghefn yr adeilad ar gyfer mynd i dir Bod Heulog. Bydd CBSC yn parhau i'w rhedeg hyd nes y bydd y gwaith wedi'i gwblhau yn foddhaol a'r gwaith cyfreithiol wedi'i gwblhau.

Gofgolofn. Cafwyd trafodaeth fanwl ynglŷn â'r cynlluniau gyflwynwyd ar gyfer tir y Gofgolofn, mynegwyd sawl sylw am y math o goed, blodau a phlanigion gwahanol gellid eu plannu a'u lleoliad - fel ar y gwair neu ar y tir ger y wal sydd o amglych tir y Gofgolofn. Cytunwyd yn unfrydol i symud ymlaen gyda'r cynlluniau fydd yn digwydd mewn rhannau. Diolchodd C.Brewer am sylwadau'r Aelodau a'u cefnogaeth. Cytunwyd i ofyn i Iwan Ty Llwyd a fuasai yn atgyweirio rhannau o'r ffens 'cast iron' sydd ar wal y Gofgolofn, cynnig M.Chapman cefnogi

T.W.Jones a phawb o blaid. Cadarnhaodd L.Roberts fod ceisiadau am grantiau ar gyfer y cynllun wedi'i cyflwyno. Gofyn i Euros Williams i roi sylw i'r wal fechan sy'n ffinio tir y Ddôl a wal y Gofgolofn.

Y Fynwent. Cytunwyd fod D.Webber wedi cwblhau gwaith arbennig o dorri'r goeden a chlirio'r eiddew oddiar y cwt. Dylid trefnu i ymweld a'r fynwent i geisio dod o hyd i safle'r gladdgell os yn bosibl. Clerc yn dal i aros am bris gan L.Roberts i glirio a thirlunio'r tir ar gyfer y cwt. Hefyd mae angen cael pris ar gyfer ffens yn y tir ar gyfer y cwt ac ar gyfer ail godi rhannau o'r wal derfyn.

Ariannol. Rhoes y Clerc adroddiad am y sefyllfa bresennol i'r Aelodau a chytunwyd ar y biliau i'w talu, cynnig C.L.Price, cefnogi C.Brewer a pawb o blaid.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: Clerc i alw cyfarfod Zoom arall ym mis Gorffennaf.